# Pwyllgor Adolygu Gweithredol
## 12 Mawrth 2025

**Yn bresennol:** Dr R Plummer (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd C George, Mrs S Hoss, Mr GA Jones a'r Cynghorydd M Wiggins.

**Hefyd yn bresennol:** Rhowan Alleyne (Swyddog Dehongli), Claire Bates (Pennaeth Twristiaeth Adfywiol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth), Sarah Parmor (Rheolwr Gweithgareddau a Digwyddiadau), Rachel Perkins (Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr - Gorllewin) a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 12:05pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd S Hancock MBE a'r Cynghorydd C Williams.

**2. Datgan buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel Cadeirydd ei Bwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Gwnaeth y Cynghorydd C George ddatganiad cyffredinol fel Cadeirydd Pwyllgor Ardal Un Llais Sir Benfro.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd M Bowen, a eiliwyd gan y Cynghorydd C George, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2024.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nododd yr Aelodau gynnwys y log gweithredu.

**Nodwyd.**

**5. Arddangosfa yr RNLI**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr (Gorllewin) a'r Swyddog Dehongli a roddodd gyflwyniad ar yr arddangosfa gyfredol yn Oriel y Parc (OyP), "Dewrder a Chymuned – RNLI 200 Cymru". Roedd y cyflwyniad yn amlinellu cefndir yr arddangosfa, ei diben, hanes yr RNLI, y broses o goladu eitemau'r arddangosfa, yr eitemau gafodd eu cynnwys, y rhanddeiliaid a gymerodd ran, y digwyddiadau a'r gweithgareddau a drefnwyd, ac effaith yr arddangosfa hyd yn hyn.

Cytunodd yr Aelodau bod yr arddangosfa yn gyfle i ddathlu cymunedau'r glannau a gwaith rhyfeddol yr RNLI. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gwaddol yr arddangosfa, a chadarnhaodd y Swyddogion mai eu gobaith oedd y byddai deunydd yr arddangosfa yn cael ei ailddefnyddio gan sefydliadau eraill, a bod uwch swyddogion o fewn yr RNLI wedi ymweld â'r arddangosfa i gael ysbrydoliaeth ar gyfer eu hamgueddfa eu hunain y bwriedir ei datblygu. Ychwanegwyd, o ganlyniad i'r arddangosfa, bod cysylltiadau OyP â'r gymuned wedi cryfhau a bod gwersi wedi'u dysgu ar wella eto fyth y modd o gynnwys y gymuned yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

**6. Egwyddorion Twristiaeth Adfywiol**

Cyflwynodd y Pennaeth Twristiaeth Adfywiol adroddiad oedd yn amlinellu dulliau'r Awdurdod o weithio tuag at Dwristiaeth Adfywiol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gefndir, amcanion a deddfwriaeth berthnasol, enghreifftiau o arfer gorau, a manylion yr ymgynghoriad mewnol perthnasol. Tynnodd y Swyddog sylw at y pwysau a ddaw yn sgîl twristiaeth yn ogystal â'r budd sy'n deillio o dwristiaeth, a'r her o gael cydbwysedd rhwng y ddau. Trafodwyd y broses a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod i ddatblygu ei egwyddorion twristiaeth adfywiol, a rhannodd y Swyddog weledigaeth yr Awdurdod a'r camau nesaf.

Awgrymodd Aelod y dylid cynnal gweithdai yn y Gymraeg a'r Saesneg i sicrhau bod sylwadau yn cael eu crisialu yn gywir. Nododd y Swyddog yr awgrym hwn fel gweithgaredd posibl ar gyfer y dyfodol.

[Gohiriwyd y cyfarfod o 11:10am – 11:20am]

**7. Amcan Llesiant: Archwiliad Dwfn / Hunanasesiad: Cymunedau**

Cyflwynodd y Pennaeth Twristiaeth Adfywiol adroddiad manwl a hunanasesiad ar yr amcan llesiant Cymunedau. Dywedwyd bod yr amcan Cymunedau yn canolbwyntio ar greu cymunedau bywiog, cynaliadwy a llewyrchus yn y Parc sy'n lleoedd lle gallai pobl fyw, gweithio a'u mwynhau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y canlyniadau ar gyfer yr amcan, asesiad o'r camau ymlaen, ystadegau perthnasol, astudiaethau achos, yr heriau a'r cyfleoedd, manylion y cyfraniadau at ganlyniadau trawsbynciol, ac asesiad cyffredinol ynghyd â'r camau nesaf.

Gofynnodd Aelod ym mha fodd yr oedd digwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu gwerthuso, a chadarnhawyd bod cyfarfodydd cyn ac ar ôl y tymor yn cael eu cynnal fel cyfle i wella arlwy'r Awdurdod, a bod cyfarfodydd gwerthuso yn cael eu trefnu ar ôl digwyddiadau mawr.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag uchelgeisiau'r Awdurdod a'r her o fonitro yn erbyn amcanion megis newid hinsawdd. Eglurodd y Prif Weithredwr na

fyddai'r Awdurdod yn llwyr gyfrifol am gyrraedd yr amcanion hyn, ond bod yr Awdurdod yn cyfrannu'n gadarnhaol at y nodau ehangach hyn.

Nodwyd bod digwyddiadau Cymraeg a gynhaliwyd yng Nghastell Henllys wedi bod yn llwyddiant, a gofynnodd Aelod a oedd digwyddiadau Cymraeg yn cael eu cynnal mewn ardaloedd eraill o'r Parc. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod digwyddiadau Cymraeg yn cael eu cynnal ar hyd a lled y Parc, fodd bynnag awgrymodd y dylid coladu rhestr o'r digwyddiadau hyn i weld a oes unrhyw fylchau.

**Nodwyd.**

**8. Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant oedd yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed yn erbyn y dangosyddion/ prosiectau/ rhaglenni gwaith blaenoriaeth am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2025 ac oedd yn cynnwys ystadegau chwarter 3 ar gyfer rhai mesurau. Roedd yr adroddiad perfformiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod 2023/24 – 2026/27.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y gwaith a wneir gan yr Awdurdod ar gadwraeth, a dywedodd y Prif Weithredwr er bod yr Awdurdod bob amser wedi gwneud gwaith cadwraeth, bod lefel y gwaith yn y maes hwn wedi cynyddu gan fod ffocws yr Awdurdod wedi newid.

Roedd yr Aelodau wedi rhoi adborth cadarnhaol ynghylch y mapio rhanddeiliaid oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, ac awgrymwyd y gallai hwn fod yn bwnc da i'w drafod ymhellach er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn canolbwyntio ar y meysydd cywir o'r gwaith sydd angen ei wneud.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 11/06/2025 heb eu diwygio. |